Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

**Mai 2024 Canfyddiadau Arolwg Panel:**

Carbon monocsid; Brechlynnau; Heintiau a Stigma iechyd

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2024

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn banel cenedlaethol o drigolion Cymru sy'n 16+ oed a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi **ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd** i lywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Cynlluniwyd y panel i gynrychioli poblogaeth Cymru yn gyffredinol yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd, ethnigrwydd a bwrdd iechyd.
- Mae aelodau'r cyhoedd yn cael eu recriwtio i'r panel gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ac yna'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd i roi cipolwg ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Mai 2024 sy'n cwmpasu:
  - **Carbon monocsid**
  - **Brechlynnau**
  - **Heintiau**
  - **Stigma iechyd**
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





# Trosolwg Methodolegol

- Ymgymerwyd â recriwtio cychwynnol i banel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (Tachwedd 2022-Ionawr 2023) dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae recriwtio yn broses barhaus a gall unigolion gofrestru drwy wefan Panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus (yn agor mewn ffenestr newydd) ar unrhyw adeg.Yn seiliedig ar sgrinio demograffig cychwynnol, caiff unigolion naill ai eu recriwtio'n uniongyrchol i'r panel neu eu gwahodd i ymuno â rhestr aros os yw'r cwota ar gyfer eu proffil demograffig yn llawn.
- Wrth gyflwyno pob arolwg, bydd recriwtio ychwanegol wedi'i dargedu yn digwydd drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cynrychioldeb sampl yn ôl yr angen.
- Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gwahoddwyd aelodau'r panel i gwblhau arolwg bob dau fis, naill ai ar-lein neu dros y ffôn. O fis Ebrill 2024, mae arolygon yn cael eu cynnal yn chwarterol.
- Ni chynhigir unrhyw gymhellion ariannol ar gyfer cyfranogiad.
- Oherwydd bod y panel wedi'i ddewis yn rhannol ei hun ac yn canolbwyntio ar bynciau iechyd y cyhoedd, gallai'r sampl gael ei effeithio gan duedd tuag at drigolion sydd â mwy o ddiddordeb mewn pynciau iechyd cyhoeddus a materion gofal iechyd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ceir rhagor o wybodaeth am ddulliau'r arolwg yn yr Atodiad.

- Ceir dadansoddiad demograffig o aelodau'r panel a gafodd eu gwahodd i gwblhau'r arolwg a'r 1,243 a gymerodd ran, ac a gwblhaodd yr arolwg ym mis Mai 2024 yn yr Atodiad.
- Oni nodir yn wahanol, mae data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.
- Sylwer: efallai na fydd y canrannau yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

# Pwyntiau Cryno

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

- Cymerodd 1,243 o bobl ran yn arolwg mis Mai 2024 (6th Mai – 4th Mehefin 2024).

## Carbon monocsid

- Mae mwyafrif y bobl yn ystyried eu hunain yn wybodus am wenwyn carbon monocsid (13% yn wybodus iawn; 59% yn eithaf gwybodus).
- Dyweddodd 77% o bobl fod ganddynt larwm carbon monocsid yn eu cartreg, a dywedodd 30% ohonynt eu bod yn gweirio eu larwm o leiaf unwaith y mis. Mae hyn yn cyfateb i ddim ond 22% o'r holl bobl sydd a larwm carbon monocsid s'n cael ei wirio'n rheolaidd.
- Dywedodd 84% o bobl eu bod yn gwybod bod carbon monocsid yn cael ei gynhyrchu pan fyddwn yn llosgi pren, olew, nwy a siarcol ar gyfer gwresogi a choginio.
- O'r pum prif symptom, diffyg anadl oedd y lleiaf hysbys (roedd 66% yn gwybod am y symptom hwn).

## Heintiau

- Dywedodd mwy o bobl eu bod yn fwy gwybodus am gonorea (5% yn wybodus iawn; 28% yn eithaf gwybodus) a HPV (5% yn wybodus iawn; 28% yn eithaf gwybodus) nag am Mpox (3% yn wybodus iawn; 13% yn eithaf gwybodus).
- Gofynnwyd i bobl pa un o chwe chyflwr yr oeddent yn gwybod amdano y gallai'r brechlyn HPV ddiogelu yn ei erbyn. Dywedodd 51% o bobl nad oeddent yn gwybod am unrhyw un.
- Pe byddai pobl yn meddwl bod ganddynt haint a drosglwyddir yn rhywiol, y cam mwyaf cyffredin y byddent yn ei gymryd fyddai cysylltu â chlinig iechyd rhywiol (67%). Fodd bynnag, pe byddent yn meddwl bod ganddynt y feirws Mpox, byddent gan amlaf yn cysylltu â phractis meddyg teulu (69%).

## Stigma iechyd

- Dywedodd 54% o bobl eu bod wedi oedi cyn mynd i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am bryder iechyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi oedi cyn gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, dyma oedd y tri phrif reswm:
  - Roedd yn rhy anodd cael apwyntiad (38%)
  - Nid oeddwn am roi baich ar y GIG (19%)
  - Nid oeddwn yn meddwl y byddwn yn cael fy nghymryd o ddifrif (17%)

## Brechlynnau

- Dywedodd 43% o bobl eu bod wedi clywed am y feirws syncytiol anadlol (RSV).
- Pe byddai brechlyn RSV yn cael ei gynnig, byddai 44% yn ei dderbyn, byddai angen mwy o wybodaeth ar 40% cyn penderfynu, ac ni fyddai 14% yn ei dderbyn.
- Gofynnwyd i bobl ddewis y tri amser apwyntiad a oedd orau ganddynt pe byddent yn cael cynnig brechlyn. Yr adegau a ddewiswyd amlaf ar gyfer apwyntiadau oedd yn y bore, ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Sadwrn.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales


GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Carbon monocsid

Yn yr adran hon, bûm yn ceisio deall gwybodaeth pobl am garbon monocsid a gwenwyn carbon monocsid. Gelwir carbon monocsid weithiau yn 'CO'.

# Carbon monocsid


## Pa mor wybodus, os o gwbl, y byddech yn dweud eich bod am wenwyno… ?




Gwell gennyf beidio â dweud: 0%

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


## Cyn heddiw, a oeddech chi'n gwybod unrhyw un o'r ffeithiau canlynol am garbon monocsid?




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: <1%

# Carbon monocsid


**Mae pum prif symptom o wenwyn carbon monocsid. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, oeddech chi'n gwybod eu bod eisoes yn symptomau?**




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: ≤3%

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


## Oes gennych chi larwm carbon monocsid yn eich cartref?




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob datganiad: <1%

## Pa mor aml ydych chi'n gwirio bod eich larwm carbon monocsid cartref yn gweithio?

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r rhai a ddywedodd fod ganddynt larwm carbon monocsid yn eu cartrefi. Mae'r ffigur yn dangos ymatebion ar gyfer y sampl lawn, gan gynnwys y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt larwm carbon monocsid neu nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt larwm carbon monocsid. Dangosir ymatebion heb eu pwysoli yn y tabl ar gyfer y rhai a ddywedodd fod larwm carbon monocsid yn eu cartrefi.




**Data wedi'i gyfyngu i'r rhai a ddywedodd fod ganddynt larwm carbon monocsid (n=979; heb ei bwysoli)**

| | |
|---|---|
| Yn wythnosol | 7% |
| Yn Fisol | 23% |
| Dwywaith y flwyddyn | 23% |
| Yn flynyddol | 21% |
| Llai na blynyddol | 8% |
| Byth | 9% |
| Ddim yn gwybod | 9% |

Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Carbon monocsid

**Gall offer coginio a gwresogi sy'n llosgi pren, olew, glo, nwy a siarcol gynhyrchu carbon monocsid. Pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n trefnu iddo gael ei wirio a/neu gael ei lanhau o leiaf unwaith y flwyddyn gan weithiwr proffesiynol cofrestredig ac cael tystysgrif o leiaf unwaith y flwyddyn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**


Mae'r data wedi'u cyfyngu i'r rhai a nododd bod y ddyfais ganddynt. Rhoddir nifer y cyfranogwyr a ymatebodd ar gyfer pob dyfais, a'r data heb eu pwysoli.

| | n | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| Popty | 762 | 28% | 63% | 9% |
| Boeler | 1148 | 82% | 13% | 5% |
| Tân nwy | 316 | 48% | 39% | 14% |
| Simnai | 504 | 53% | 37% | 10% |
| Llosgwr coed | 382 | 54% | 39% | 8% |

# Carbon monocsid

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Ydych chi'n pacio ac yn defnyddio larwm carbon monocsid pan ydych chi'n aros i ffwrdd o'ch cartref (e.e. mynd ar wyliau, aros gyda ffrindiau a theulu)?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Brechlynnau


Mae’r feirws syncytiol anadlol (RSV) yn salwch firol sy'n achosi symptomau fel annwyd (e.e. trwyn yn rhedeg, peswch, twymyn, gwichian). Mae'r feirws fel arfer yn digwydd yn y gaeaf a dechrau'r gwanwyn ac yn rhoi pwysau ar y GIG. Bydd brechlyn newydd ar gael yn fuan i amddiffyn yn erbyn RSV.I’r rhan fwyaf o bobl, mae feirws syncytiol anadlol (RSV) yn achosi salwch ysgafn, fel peswch neu annwyd. Fodd bynnag, mae babanod dan flwydd oed ac oedolion hŷn mewn perygl o fynd yn sâl iawn. Weithiau, mae angen i bobl sy’n mynd yn sâl oherwydd haint RSV fynd i’r ysbyty. Gall RSV fod yn fwy peryglus i rai pobl, yn enwedig y rhai â chyflyrau iechyd penodol. Gall hyd yn oed achosi marwolaeth.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

**Cyn heddiw, a oeddech chi wedi clywed am y feirws syncytaidd anadlol (RSV)?**





**Bydd brechlyn newydd ar gael yn fuan i atal RSV. Pe baech yn cael cynnig y brechlyn RSV, a fyddech yn ei dderbyn?**





Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer y ddau gwestiwn: ≤1%

## Pan gynigiwyd apwyntiad brechlyn i chi yn y gorffennol, a gawsoch unrhyw anhawster wrth drefnu apwyntiad?




Gwell gennyf beidio â dweud : <1%

## Pa mor bell ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol i chi gael cais i deithio i apwyntiad brechlyn?




Gwell gennyf beidio â dweud : 4%

## Pe byddech yn trefnu apwyntiad brechu ac yn gallu dewis tri diwrnod ac amser i fod yn bresennol, pryd fyddech chi'n hoffi cael apwyntiad? Ystyriwch y saith diwrnod mewn wythnos, a'r amseroedd ar yr awr o 8am i 8pm.


| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8am – 9am | 6% | 5% | 5% | 3% | 4% | 4% | 3% |
| 9am – 10am | 6% | 5% | 6% | 3% | 4% | 7% | 4% |
| 10am – 11am | 11% | 10% | 12% | 6% | 5% | 8% | 4% |
| 11am – 12 Canol Dydd | 7% | 8% | 8% | 5% | 4% | 5% | 3% |
| 12 Canol Dydd – 1pm | 2% | 3% | 4% | 2% | 1% | 4% | 3% |
| 1pm – 2pm | 2% | 3% | 3% | 2% | 2% | 3% | 2% |
| 2pm – 3pm | 2% | 4% | 4% | 2% | 1% | 2% | 2% |
| 3pm – 4pm | 1% | 1% | 2% | 2% | 2% | 1% | 1% |
| 4pm – 5pm | 1% | 1% | 2% | 1% | 3% | 1% | 1% |
| 5pm – 6pm | 2% | <1% | 1% | 1% | 3% | 1% | 1% |
| 6pm – 7pm | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% | 1% |
| 7pm – 8pm | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |

Mae'r tabl hwn yn rhoi cyfran y sampl a ddewisodd bob opsiwn o ran diwrnod/amser. O'r sampl, nododd 79% o bobl dri opsiwn ar gyfer cael apwyntiad, nododd 6% ddau opsiwn a nododd 9% un opsiwn. Ni roddodd 6% o bobl unrhyw ymateb ar gyfer opsiwn o ran diwrnod/amser (gwell gennyf beidio â dweud).

# Heintiau


Gonorea, Mpox (a elwid yn flaenorol yn frech y mwncïod) a HPV (feirws papiloma dynol). Mae gonorea yn haint a drosglwyddir yn rhywiol sy'n lledaenu trwy ryddhau; ac mae Mpox a HPV yn feirysau sy'n cael eu lledaenu trwy gyswllt croen-i-groen.

## Pa mor wybodus, os o gwbl, fyddech chi'n dweud eich bod chi am… ?




Gwell gennyf beidio â dweud ar gyfer pob cwestiwn: <1%


## Pe byddech chi'n meddwl bod gennych chi haint a drosglwyddir yn rhywiol, pa rai o'r camau canlynol, os o gwbl, fyddech chi'n eu cymryd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

*Mae'r ymatebwyr a roddodd ymateb testun rhydd yn 'arall (nodwch)' yn nodi nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt, wedi cael eu codio i'r opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Roedd 'Ddim yn gwybod', 'Ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau' a 'Gwell gennyf beidio â dweud' i gyd yn opsiynau ymateb ar wahân.*


## Pe byddech chi'n meddwl bod gennych chi feirws Mpox, pa rai o'r camau canlynol, os o gwbl, fyddech chi'n eu cymryd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: 2%


*Mae'r ymatebwyr a roddodd ymateb testun rhydd yn 'arall (nodwch)' yn nodi nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt, wedi cael eu codio i'r opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Roedd 'Ddim yn gwybod', 'Ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau' a 'Gwell gennyf beidio â dweud' i gyd yn opsiynau ymateb ar wahân.*

**Pan fydd unigolyn yn ymweld â chlinig iechyd rhywiol i gael triniaeth ar gyfer haint a drosglwyddir yn rhywiol, efallai y caiff gynnig brechlyn ataliol ar gyfer heintiau a feirysau tebyg eraill. Cyn heddiw, a oeddech yn ymwybodol bod clinigau iechyd rhywiol arbenigol yn cynnig brechlynnau o'r fath?**




Gwell gennyf beidio â dweud : 1%


**Gellir cynnig brechlyn i atal Mpox mewn clinig iechyd rhywiol. Pe bai brechlyn Mpox yn cael ei gynnig i chi gan weithiwr gofal iechyd, a fyddech chi'n ei dderbyn?**




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


## Gall y brechlyn HPV (feirws papiloma dynol) amddiffyn rhag gwahanol gyflyrau iechyd. Pa rai, os o gwbl, o'r amodau canlynol oeddech chi'n ymwybodol y gall y brechlyn HPV amddiffyn yn eu herbyn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Gwell gennyf beidio â dweud: 3%


*Roedd 'dim un o'r rhain' yn opsiwn ymateb ar wahân.*

## Argymhellir y brechlyn HPV ar gyfer dau grŵp craidd o bobl. Oeddech chi'n ymwybodol bod y ddau grŵp canlynol yn gymwys ar gyfer y brechlyn HPV?




Gwell gennyf beidio â dweud dros y ddau ddatganiad: 2%

## Mae'r brechlyn HPV yn cael ei gynnig i blant 12 i 13 oed mewn ysgolion i ddechrau. Oeddech chi'n gwybod hyn?





Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

# Stigma iechyd

Yn yr adran hon, gofynnwyd am brofiadau a chanfyddiadau pobl o gael cymorth ar gyfer gwahanol gyflyrau iechyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol (e.e. meddyg, deintydd, ffisiotherapydd, nyrs), aelodau o'r teulu, a ffrindiau.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, a ydych chi wedi "gohirio" neu wedi oedi cyn mynd i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (e.e. meddyg teulu, nyrs, deintydd) am bryder iechyd?




Gwell gennyf beidio â dweud: 1%

Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod wedi oedi cyn gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (n=716; heb ei bwysoli)

**Pam wnaethoch chi oedi cyn mynd i weld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol?**




Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Dychmygwch eich bod yn poeni am y cyflyrau canlynol, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus yn siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol amdanynt?

| | Cyfforddus | Anghyfforddus | Ddim yn gwybod | Gwell gennyf beidio â dweud | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Yfed gormod o alcohol | 60% | 20% | 16% | 5% | |
| Angen cymorth i roi'r gorau i ysmygu | 65% | 7% | 17% | 11% | |
| Teimlo'n isel neu'n orbryderus | 63% | 27% | 9% | 1% | |
| Cael haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI) | 50% | 35% | 12% | 3% | |
| Cael HIV (feirws diffyg imiwnedd dynol) | 56% | 23% | 18% | 3% | |
| Cael canser | 79% | 12% | 8% | 1% | |
| Cael diabetes | 87% | 7% | 4% | 1% | |
| Bod â phwysedd gwaed uchel | 90% | 6% | 4% | 1% | |
| Cael UTI (haint y llwybr wrinol) | 82% | 12% | 5% | 1% | |
| Cael y ffliw | 87% | 8% | 4% | 1% | |
| Cael arthritis | 91% | 5% | 3% | 1% | |
| Pryderon ffrwythlondeb i chi neu'ch partner | 41% | 10% | 7% | 1% | 42% |
| Menopos (chi neu'ch partner) | 50% | 9% | 6% | 1% | 34% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Dychmygwch eich bod yn poeni am y cyflyrau canlynol, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus yn siarad â ffrindiau amdanynt?

| | Cyfforddus | Anghyfforddus | Ddim yn gwybod | Gwell gennyf beidio â dweud | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Yfed gormod o alcohol | 55% | 27% | 15% | 3% | |
| Angen cymorth i roi'r gorau i ysmygu | 73% | 7% | 14% | 6% | |
| Teimlo'n isel neu'n orbryderus | 59% | 31% | 9% | 1% | |
| Cael haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI) | 29% | 53% | 16% | 2% | |
| Cael HIV (feirws diffyg imiwnedd dynol) | 35% | 44% | 18% | 3% | |
| Cael canser | 66% | 21% | 11% | 1% | |
| Cael diabetes | 84% | 9% | 6% | 1% | |
| Bod â phwysedd gwaed uchel | 88% | 7% | 4% | 1% | |
| Cael UTI (haint y llwybr wrinol) | 66% | 25% | 8% | 2% | |
| Cael y ffliw | 93% | 3% | 3% | 1% | |
| Cael arthritis | 91% | 5% | 4% | 1% | |
| Pryderon ffrwythlondeb i chi neu'ch partner | 28% | 15% | 5% | 1% | 51% |
| Menopos (chi neu'ch partner) | 36% | 9% | 4% | <1% | 51% |

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Dychmygwch eich bod yn poeni am y cyflyrau canlynol, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus neu'n anghyfforddus yn siarad ag aelodau'r teulu amdanynt?

| | Cyfforddus | Anghyfforddus | Ddim yn gwybod | Gwell gennyf beidio â dweud | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| Yfed gormod o alcohol | 48% | 35% | 14% | 3% | |
| Angen cymorth i roi'r gorau i ysmygu | 68% | 12% | 14% | 6% | |
| Teimlo'n isel neu'n orbryderus | 56% | 34% | 9% | 1% | |
| Cael haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI) | 24% | 60% | 14% | 3% | |
| Cael HIV (feirws diffyg imiwnedd dynol) | 36% | 46% | 15% | 2% | |
| Cael canser | 68% | 22% | 9% | 1% | |
| Cael diabetes | 85% | 9% | 4% | 1% | |
| Bod â phwysedd gwaed uchel | 89% | 7% | 3% | 1% | |
| Cael UTI (haint y llwybr wrinol) | 66% | 25% | 7% | 1% | |
| Cael y ffliw | 91% | 5% | 3% | 1% | |
| Cael arthritis | 91% | 6% | 3% | 1% | |
| Pryderon ffrwythlondeb i chi neu'ch partner | 26% | 16% | 6% | <1% | 52% |
| Menopos (chi neu'ch partner) | 35% | 10% | 4% | <1% | 51% |


Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.




**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


icc.gig.cymru

SiaradICCymru@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus


**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

**Polisi ac Iechyd Rhyngwladol**

**Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

# Cyfranwyr y Prosiect

**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp, Prof Karen Hughes, Lewis Brace

**Diolchiadau am Gymorth Prosiect Ehangach:**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd, Dynodwyd Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant' (WHO CC): Dr Sumina Azam, Nayana Varadaraj, Dr Rebecca Hill

Tîm Cyfathrebu: Daniel Owens, Chris Jones, Rebecca Hopkins, Danny Donavan, Laura Overton, Marcus Hughes

Grŵp Cynghori Traws-Sefydliadol: Emily van de Venter, Amy Burgess, Dr Sikha de Souza, Heather Ramessur-Marsden, Susan Belfourd, Helen Rose-Jones, Giles Greene, Chris Roberts (Llywodraeth Cymru)

**Datblygu'r Holiadur**

Datblygwyd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn arolwg mis Mai mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg sampl

Dulliau

# Demograffeg

| | | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,079 | | Mai 2024 Sampl arolwg N = 1,243 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 827 | 27% | 402 | 32% |
| | Benyw | 51% | 2207 | 72% | 826 | 67% |
| | Arall | - | 45 | 1% | 15 | 1% |
| Oedran (blynyddoedd) | 16-29 | 21% | 468 | 15% | 163 | 13% |
| | 30-49 | 29% | 1256 | 41% | 398 | 32% |
| | 50-69 | 31% | 984 | 32% | 455 | 37% |
| | 70+ | 19% | 371 | 12% | 227 | 18% |
| Cwintel amddifadedd | 1 (Mwyaf) | 19% | 494 | 16% | 189 | 15% |
| | 2 | 20% | 617 | 20% | 241 | 19% |
| | 3 | 21% | 616 | 20% | 235 | 19% |
| | 4 | 21% | 639 | 21% | 273 | 22% |
| | 5 (Lleiaf) | 20% | 713 | 23% | 305 | 25% |

Nodwch. Data poblogaeth o Amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Canol 2020) (yn agor mewn ffenestr newydd); Data cwintel amddifadedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) (yn agor mewn ffenest newydd).

Oherwydd diffyg cyfranogiad mewn pedwar arolwg yn olynol, mae 220 o bobl wedi cael eu tynnu oddi ar y panel. Amlinellwyd y broses hon i aelodau'r panel yn y deunydd ymuno.

# Demograffeg

|  |  | Poblogaeth (16+ oed) | Sampl panel cyffredinol N = 3,079 |  | Mai 2024 Sampl Arolwg N = 1,243 |  |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd | Gwyn | 95% | 2947 | 96% | 1200 | 97% |
|  | Ethnigrwydd cymysg | 1% | 61 | 2% | 23 | 2% |
|  | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 2% | 36 | 1% | 10 | 1% |
|  | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 1% | 13 | <1% | 3 | <1% |
|  | Ethnigrwydd arall | 1% | 16 | 1% | 5 | <1% |
|  | Gwell gennyf beidio â dweud | - | 6 | <1% | 2 | <1% |
| Bwrdd Iechyd | BIP Aneurin Bevan | 19% | 554 | 18% | 208 | 17% |
|  | BIP Betsi Cadwaladr | 22% | 607 | 20% | 270 | 22% |
|  | BIP Caerdydd a'r Fro | 16% | 586 | 19% | 212 | 17% |
|  | BIP Cwm Taf Morgannwg | 14% | 394 | 13% | 160 | 13% |
|  | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 12% | 440 | 14% | 183 | 15% |
|  | BI Addysgu Powys | 4% | 128 | 4% | 61 | 5% |
|  | BIP Bae Abertaw | 12% | 370 | 12% | 149 | 12% |

Nodwch. Mae amcangyfrifon poblogaeth yn ôl ethnigrwydd (yn agor mewn ffenest newydd) a gafwyd gan Stats Cymru ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn wyn. Amcangyfrifon poblogaeth gan fyrddau iechyd lleol (yn agor mewn ffenest newydd) wedi'u casglu o Stats Cymru. BIP: Bwrdd Iechyd Prifysgol; BI: Bwrdd Iechyd.

# Dulliau - Recriwtio Cychwynnol

- Gosodwyd targed cychwynnol o 2,500 aelod panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 ymateb; amcangyfrifwyd y byddai'r cyfraddau ymateb i arolygon bob yn ail fis yn 50% ar y mwyaf.
- I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (MALC*)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.

* Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect (yn agor mewn ffenest newydd).

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau'r holiadur trwy’r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau’r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig sydd ei angen i gyflawni sampl sy'n cynrychioli oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd Cymru, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth ar draws sampl yr arolwg, cynhelir tua 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau poblogaeth a dargedir. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau’r arolwg ac fe’u gwahoddir yna i ymuno â'r panel. Felly mae cyfran yn gyfranogwyr sy’n cwblhau arolwg untro. Yn ogystal, rhoddir hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n targedu grwpiau poblogaeth penodol.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr (N = 1,243) a gwblhaodd arolwg mis Mai drwy’r dulliau canlynol:

| Dull Recriwtio | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 845 | 68% |
| Dros y ffôn | 264 | 21% |
| Wyneb yn wyneb (panel) | 91 | 7% |
| Wyneb yn wyneb (untro) | 43 | 3% |

Cwblhaodd y cyfranogwyr (N = 1,243) arolwg mis Mai drwy’r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 1039 | 84% |
| Dros y ffôn | 96 | 8% |
| Wyneb yn wyneb | 108 | 9% |